Ymddiriedolaeth Natur
Gogledd Cymru
North Wales
Wildlife Trust

PECYN CYMORTH GARDDWYR

# PROFFIL PLANHIGYN

## Rhododendron ponticum

YMLEDOL

FFEITHIAU | ID | HELPWCH | TIPIAU | MWY O BROFFILIAU



## Disgrifiad o'r rhywogaeth

**Enw gwyddonol:**
*Rhododendron ponticum*

**Brodorol i:**
Gorynys Sbaen a de-ddwyrain Ewrop, tuag at y Cawcasws.

Cronfa Treftadaeth Heritage Fund

Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru
In Partnership with Welsh Government

Lluniau: NWWT Lisa Toth

# Ffeithiau diddorol

**Effeithiau:**
Mae rhododendron yn ffurfio dryslwyni tew sy'n cysgodi planhigion brodorol ac yn atal coedwigoedd brodorol rhag ail-dyfu. Mae Rhododendron yn wenwynig i anifeiliaid (gan gynnwys peillwyr) a phobl. Mae'n gallu dal clefydau sy'n effeithio'n negyddol ar goedwigoedd brodorol. Gwariodd **Parc Cenedlaethol Eryri** ei hun **£2.2 miliwn** rhwng 2018 a 2024 yn ei reoli.

**Cynefin:**
Yn tyfu ar briddoedd asidig, mawnaidd, neu dywodlyd mewn coetiroedd, rhostiroedd, bryniau creigiog, gerddi gwag a glannau afonydd.



Llwyn bytholwyrdd, gyda thrwch o ganghennau, sy'n lledu dros ardaloedd mawr. Cafodd ei gyflwyno i Brydain yn 1763 a'i gofnodi yn y gwyllt am y tro cyntaf erbyn 1849, ac mae bellach yn gyffredin iawn.



**Sut mae'n lledaenu:**
Mae hadau'n cael eu gwasgaru gan y gwynt a dŵr. Mae hefyd yn lledaenu drwy haenau o ganghennau ar y ddaear. Gall pob pen blodyn gynhyrchu rhwng tair mil a saith mil o hadau.

BRIG

Lluniau: NWWT Lisa Toth a GB NNSS

# Nodweddion adnabod allweddol



Mae dail mewn sbiral ar ben y gangen.



Blaguryn blodyn.

10-15 o flodau siâp twmffat lelog i biws yn y gwanwyn. Mae gan bob blodyn bum petal.




Dail lledraidd gydag arwyneb uchaf gwyrdd llwm. 6-12cm o hyd.

Mae capsiwlau prennaidd yn datblygu ar ôl blodeuo ac yn cynnwys hadau.



Coesau prennaidd hyd at 15cm mewn diamedr a 5m o uchder.



BRIG

Lluniau: NWWT Lisa Toth a GB NNSS


## Gweithredu

# Helpu i atal y lledaeniad

Cael gwared ar blanhigion aeddfed trwy balu, gan sicrhau eich bod yn tynnu'r gwreiddiau.



Dylid cael gwared ar eginblanhigion drwy dynnu gyda llaw neu balu.



Peidiwch â chompostio pennau hadau adref, defnyddiwch gyfleusterau gwastraff gardd y cyngor.

Archwiliwch ein hawgrymiadau ar gyfer syniadau planhigion amgen.



# Handy tips

## Deddfwriaeth

Mae *Rhododendron ponticum* wedi'i restru fel rhywogaeth ymledol ar Atodlen 9 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981). **Mae'n drosedd plannu neu achosi i dyfu yn y gwyllt.**

Dylai garddwyr sy'n meddu ar y planhigyn hwn gymryd camau i helpu **atal ei ledaeniad** o'u gerddi i'r gwyllt.

## Rhywogaethau tebyg:

Ni ddylid ei gymysgu gyda rhywogaeth ymledol arall, coeden lawrgeirios (*Prunus laurocerasus*).



Coeden lawrgeirios

## Syniadau am blanhigion amgen

### Anfrodorol

Camelia gyffredin (*Camellia japonica*)

Aeron y Nadolig 'Robin Goch' (*Photinia × fraseri*)

Gwifwrnwydden Burkwood (*Viburnum × burkwoodii*)

Gwifwrnwydden Burkwood



BRIG

Lluniau: NWWT Lisa Toth a RHS Mark Winwood.
Darluniau: David Setter @doodleplant a starfishonline.co.uk
Gwybodaeth wedi'i chasglu gan GB NNSS, RHS a BSBI.